

CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD

Dydd Iau, 4 Chwefror 2016

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd

Y Cynghorwyr:

T.J. Jones

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

J. McEvoy, Rheolwr diogelwch y ffyrdd a traffig

D. Phillips, Swyddog i'r wasg a Chyfathrebu

K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd

Ystafell 67, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 11.00 - 11.10 am

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd dim buddiannau personol yn y cyfarfod

2. COD TRAMGWYDDAU PARCIO 27 - COD YMARFER

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd yn ystyried adroddiad ynghylch y bwriad i fabwysiadu, gan y Cyngor Sir, Gôd Ymarfer ar gyfer Côd Tramgwyddau Parcio 27 ei Bolisïau Canllaw ar gyfer Gorfodi a Dileu Hysbysiadau Tâl Cosb mewn perthynas ag atal rhwystr i dramwyfeydd preifat lle roedd y rhwystr hwnnw'n digwydd heb ganiatâd preswylwyr yr eiddo.

Dywedwyd wrth yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, petai'r adroddiad yn cael ei fabwysiadu, y byddai'r Côd Ymarfer ar gael ar dudalen we'r Cyngor ynghylch Parcio.

PENDERFYNWYD

2.1 bod y Côd Ymarfer ynghylch Côd Tramgwyddau Parcio 27 yn cael ei fabwysiadu

2.2 bod y Côd Ymarfer ar gael ar dudalen we'r Cyngor ynghylch Parcio.

3. DERBYN A LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD PENDERFYNIADAU'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD A GYNHALIWDYD AR 21AIN MEDI 2015

PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau cyfarfod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd, a gynhaliwyd ar 21^{ain} Medi, 2015, yn gofnod cywir

CADEIRYDD

DYDDIAD